**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2002 Rhif 3186 (Cy.302)

# ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

## Gorchymyn y Rhestrau Ardrethu (Dyddiad Prisio) (Cymru) 2002

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Yn rhinwedd adrannau 41(2) a 52(2) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 Rhan III, rhaid i restrau ardrethu annomestig gael eu llunio ar 1 Ebrill ym mhob pumed blwyddyn ar ôl 1990.

At ddibenion llunio rhestr o'r fath mae gwerth ardrethol hereditament annomestig i gael ei benderfynu ar y diwrnod y mae'n rhaid llunio'r rhestr neu ar unrhyw ddiwrnod cyn y diwrnod hwnnw a bennir drwy orchymyn.

Mae'r Gorchymyn hwn yn pennu 1 Ebrill 2003 fel y diwrnod y mae'n rhaid cyfeirio ato i benderfynu gwerth ardrethol hereditament annomestig at ddibenion rhestrau ardrethu annomestig lleol a chanolog sydd i'w llunio ar 1 Ebrill 2005.

Mae erthygl 3 yn dirymu Gorchymyn y Rhestrau Ardrethu (Dyddiad Prisio) 1998.

**NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES**

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2002 No. 3186 (W.302)

# RATING AND VALUATION, WALES

## The Rating Lists (Valuation Date) (Wales) Order 2002

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Order)*

By virtue of sections 41(2) and 52(2) of the Local Government Finance Act 1988 Part III, non-domestic rating lists must be compiled on 1st April in every fifth year after 1990.

For the purposes of compiling such a list the rateable value of a non-domestic hereditament is to be determined on the day on which the list must be compiled or on such day preceding that day as may be specified by order.

This Order specifies 1st April 2003 as the day by reference to which the rateable value of a non-domestic hereditament is to be determined for the purposes of the local and central non-domestic rating lists which are to be compiled on 1st April 2005.

Article 3 revokes the Rating Lists (Valuation Date) Order 1998.

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2002 Rhif 3186 (Cy.302)

# ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

## Gorchymyn y Rhestrau Ardrethu (Dyddiad Prisio) (Cymru) 2002

*Wedi'i wneud* *18 Rhagfyr 2002*

*Yn dod i rym* *1 Mawrth 2003*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Gorchymyn canlynol drwy arfer y pŵer a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan baragraff 2(3)(b) o Atodlen 6 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988(**a**) sydd wedi'i freinio bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y mae'n arferadwy yng Nghymru(**b**).

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1**.-(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn y Rhestrau Ardrethu (Dyddiad Prisio) (Cymru) 2002 a daw i rym ar 1 Mawrth 2003.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i Gymru yn unig.

**Dyddiad prisio**

**2**. 1 Ebrill 2003 yw'r diwrnod a bennir o dan baragraff 2(3)(b) o Atodlen 6 (Prisio ar gyfer ardrethu annomestig) i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 fel y diwrnod y mae'n rhaid cyfeirio ato i benderfynu gwerthoedd ardrethol hereditamentau annomestig at ddibenion rhestrau ardrethol annomestig lleol a chanolog sydd i'w llunio ar gyfer Cymru ar 1 Ebrill 2005.

**Dirymu**

**3.** Dirymir Gorchymyn y Rhestrau Ardrethu (Dyddiad Prisio) 1998(**c**) i'r graddau y mae'n berthnasol i Gymru.

(a) 1988 p. 41.

(b) *Gweler* Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

(c) O.S. 1998/93

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2002 No. 3186 (W.302)

# RATING AND VALUATION, WALES

## The Rating Lists (Valuation Date) (Wales) Order 2002

*Made* *18th December 2002*

*Coming into force* *1st March 2003*

The National Assembly for Wales makes the following Order in exercise of the powers given to the Secretary of State by paragraph 2(3)(b) of Schedule 6 to the Local Government Finance Act 1988(**a**) which is now vested in the National Assembly for Wales so far as exercisable in Wales(**b**).

**Name, commencement and application**

**1**. -(1) The name of this Order is the Rating Lists (Valuation Date) (Wales) Order 2002 and it shall come into force on 1st March 2003.

(2) This Order applies to Wales only.

**Valuation date**

**2**. 1st April 2003 is specified under paragraph 2(3)(b) of Schedule 6 (Valuation for non-domestic rating) to the Local Government Finance Act 1988 as the day by reference to which the rateable values of non-domestic hereditaments are to be determined for the purposes of the local and central non-domestic rating lists which are to be compiled for Wales on 1st April 2005.

**Revocation**

**3**. The Rating Lists (Valuation Date) Order 1998(**c**) is revoked in so far as it relates to Wales.

(a) 1988 c. 41.

(b) *See* the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672).

(c) S.I. 1998/93.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**a**)

18 Rhagfyr 2002

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(**a**)

18th December 2002

*D. Elis-Thomas*

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

The Presiding Officer of the National Assembly

(a) 1998 p.38.

(a) 1998 c. 38.

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

**2002 Rhif 3186 (Cy.302)**

**2002 No. 3186 (W.302)**

# ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

# RATING AND VALUATION, WALES

Gorchymyn y Rhestrau Ardrethu (Dyddiad Prisio) (Cymru) 2002

The Rating Lists (Valuation Date) (Wales) Order 2002

©© Hawlfraint y Goron 2003

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2003

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090621-7

**£1.75**

W178/01/03 ON

9 780110 906218